

Polisiau Cyfle Cyfartal Cyngor Cymuned Mawddwy

Datganiad Sylfaenol

1. Bydd Cyngor Cymuned Mawddwy yn ymrwymo i wrthwynebu hiliaeth, rhywiaeth a phob math o ragfarn sy'n cael ei wynebu gan bobl o leiafrifoedd ethnig, merched, pobl sydd ac anabledau, lesbiaid a dynion hoyw.
2. Bydd Cyngor Cymuned Mawddwy yn gweithio yn erbyn pob rhagfarn uniongyrchol ac anuniongyrchol yn ei ymarferion cyflogaeth ac yn narpariaeth ei wasanaethau.
3. Bydd Cyngor Cymuned Mawddwy yn gofalu y bydd y gwasanaeth mae'n ddarparu yn wirioneddol gyfarfod ac anghenion y gymuned yn y ffordd mwyaf addas.
4. Bydd Cyngor Cymuned Mawddwy yn gweithredu yn gadarnhaol i wneud y polisi yma'n gwbl effeithiol ac yn sicrhau na fydd yr un ymgeisydd am swydd yn derbyn ystyriaeth llai ffafriol ar sail ei hil, rhyw, lliw, cenedligrwydd, cefndir ethnig neu darddiad cenedlaethol, statws priodasol, tueddiadau rhywiol, anabled neu oedran.
5. Bydd pob cyfundrefn a sefydlir yn sgil yr ymrwymadau uchod yn cael eu fonitro er mwyn sicrhau effeithiolrwydd a gwneir newidiadau lle'n addas.

